# DINESYDD
## Chwefror/Mawrth

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 65


# Nos Sadwrn yn y Ddinas

**"Allech chi ddim fod wedi dewis noson waeth," ebe'r Chwaer.**

**Ar y dechrau 'doedden ni ddim yn ei deall. 'Roedd Mam wedi cael codwm yn nhŷ fy chwaer. Erbyn y nos 'roedd ei braich uchaf wedi chwyddo, yn ddu ac yn boenus. Nid oedd ei meddyg arferol ar gael, ond am un-ar-ddeg cyrhaeddodd y doctor o Gaerdydd, merch ifanc ymenyddol ei golwg. Cyn hanner nos 'roedd ambiwlans yn ein cludo o Benarth i'r Ysbyty Brenhinol.**

Gŵyr pob gyrrwr fod heolydd Caerdydd yn dyllog ac yn anwastad, ond 'dyw'r peth yn mennu fawr nes eich bod chi mewn ambiwlans yn gwmni i rywun mewn poen.

Yn yr ysbyty fe'i dodwyd hi mewn cadair olwyn a pheri iddi aros mewn coridor hirgul, salw. Gwenai'r nyrsus wrth fynd heibio. Ar y cadeiriau yn erbyn y wal eisteddai croesdoriad o drigolion Caerdydd, yn fud, yn swrth, y disgwyl hir yn troi'r anobaith. Ninnau'n dod yn rhan ohonynt, megis teithwyr ar orsaf relwe lom yn aros am y trên na ddeuai fyth.

Cadachau gwaed yn tynnu ein sylw er ein gwaethaf. Un dyn wedi torri ei fys wrth gau drws car; merch ysgol yn ceisio dal ei llaw ar i fyny a'r hylif coch yn mynnu lledu drwy'r drwch o hancesi; dyn ifanc yn hercian allan o gell y doctor a dweud wrth ei fam mewn syndod eu bod nhw am ei gadw i mewn.

Yna yn sydyn yr awyrgylch swrth yn newid. Sŵn ymrafael o ben draw'r coridor a dyn mewn sircyn coch yn torri'n rhydd o afael ei gydymaith ac yn rholio fel morwr meddw tuag atom. Hwyrach mai morwr ydoedd. Yn sicr, meddw ydoedd. Gwaed eto — ar ei drowsus, ar ei dalcen, a'i law dde'n stwnsh o waed. Ei gydymaith (penderfynu mai merch oedd hi, ond anodd dweud ar y dechrau) yn ei ddilyn yn frysiog, hithau â'i jins yn diferu o waed. Dyn ambiwlans yn cymryd gofal, a'r dyn yn diflannu i rywle. Y ferch yn eistedd i aros, yn tynnu a thynnu ar ei sigaret ac yn troedio 'nôl ac ymlaen i'r tŷ bach.

***"That one's been in a right punch-up."***

O leiaf roedd eu dyfodiad wedi torri ar yr undonedd. Roedd pawb wedi dechrau siarad, neu o leiaf, sibrwd. Ac 'roedd gwell i ddod. Rhyw hanner dwsin o fechgyn a merched llawn sŵn a chwerthin yn holi wrth y ddesg am eu ffrind. Hwyl fawr oedd y cyfan.

"John Charlton Jones ydi'r enw*. Rhywun wedi'i daro fe ar ei ben..."

"Damwain wrth gwrs......"

Golwg ieuenctid cefnog arnynt, ac iwfforia parti'r noson yn dal arnynt. O'r Fro, hwyrach (Morgannwg, nid y Gymraeg) Toriaid Ifainc? Saesneg a'r cysgod lleiaf o acen Gymreig ar un neu ddau, y lleill yn brolio acen ffasiynol Canol-Iwerydd.

"Y creadur! 'Doedd yna fawr yn ei ben e i gychwyn."

"Rwy' i wedi blino, Tosh. Rwy' i am fynd adre."

Bu raid iddyn nhw symud o'r ffordd yn sydyn i wneud lle i'r cwpwl newydd. Gwir nad oedd y dyn ddim llawn mor feddw â'r ferch, ond canllaw digon simsan iddi 'roedd o. Gorchuddid ei phen â chadachau fel twrban, a rhowliai ei llygaid tua'r nen. Pawb ohonom yn tynnu ein coesau tuag atom rhag ofn iddynt faglu drosom. Yn wyrthiol yntau'n canfod lle 'roedd tŷ bach y merched, a dyma ei thywys hi'n simsan tuag ato. Ond nid cyn iddi daflu i fyny ar y ffordd.

Erbyn hyn 'roedd hi'n ddau o'r gloch y bore a ninnau'n anesmwytho.

"Mae'n ddrwg gen i," ebe'r Chwaer, "ond mae damweiniau difrifol wedi dod i mewn, a 'dan ni'n brin o staff."

Hyd y gellid canfod, dim ond dau ddoctor ifanc iawn oedd wrth y llyw, yn rhyfeddol o amyneddgar yn oriau mân y bore.

Y morwr meddw yn dechrau sobri ac yn awyddu am lemonêd o'r peiriant diod.

"Sut mae gweithio'r peth yma?" gwaeddodd ar bawb ohonom, y cwestiwn wedi'i frodio ag ansoddeiriau lliwgar.

Neb yn cymryd sylw, oddieithr un wraig fach lwyd ac eiddil ei golwg.

"Dodwch bum ceiniog yn y slot, cariad."

Ninnau'n teimlo'n euog ac yn anghristnogol. Cododd y wraig a mynd draw at y peiriant.

"Hwdiwch. Mi wna' i......"

Wel, 'roedd hi wedi arfer â phobl wedi meddwi, siwr o fod.

"Aros am y gŵr rydw i," meddai, wedi dod i eistedd i lawr yn ein hymyl. "Wedi cael ei fygio. Mewn toiled cyhoeddus. Diawl, taswn i'n cael gafael ar y dyn wnaeth o......! Tasa hyn wedi digwydd neithiwr, faswn i ddim wedi synnu dim, achos roedd o wedi meddwi'n shwps neithiwr. Ond heno 'roedd o mor sobor â sant."

Distawrwydd am ychydig, y distawrwydd enbyd a ddaw am hanner awr wedi dau y bore. Yna ei rwygo gan sŵn y teclyn dal llwch sigarets yn cael ei gicio o un pen o'r coridor i'r llall. 'Roedd y morwr, wrth sobri, yn troi'n gas.

"Byhafia dy hun! Wyt ti'n clywed? Byhafia dy hun!"

Y dyn ambiwlans a'r Chwaer yn rhuthro amdano, ac yn ei fygwth. Yntau'n ymdawelu'n anfodlon ac yn rwgnachlyd.

"Noson ddrwg heno," meddwn wrth y Chwaer wrth iddi glymu'r sling o'r diwedd ar y fraich doredig.

"Tebyg i arfer...... Nos Sadwrn yn Casualty," ebe hithau, a derbyn y Drefn.

*Nid ei enw iawn wrth gwrs.

MARION EAMES

O.N. Deunaw mis yn ôl 'roedd hyn. Hwyrach fod pethau wedi newid!

# TAFODIAITH A CHYWAIR

**Yn anffodus, bu'n rhaid rhoi'r gorau i gwrs hynod ddiddorol y Dr Ceinwen Thomas, *Tafodiaith a Chywair* a gychwynnodd ym mis Ionawr eleni oherwydd diffyg cefnogaeth. Y mae hon yn sefyllfa drist ond cawn ail gyfle i ddangos ein diddordeb pan gynigir y cwrs unwaith eto ym mis Hydref (gweler Prospectws yr Adran Efrydiau Allanol am fanylion).**

**Cynnwys y cwrs fydd: yr hyn a olygir wrth iaith a chyweiriad ieithyddol. Yr amrywiadau oddi mewn i iaith: (1) amrywiadau lleol a chymdeithasol, sef y tafodieithoedd. Sut y pennir ffiniau tafodieithoedd. Rhai o nodweddion tafodieithoedd Cymru; (ii) amrywiadau eraill: cywair, megis yr iaith lafar/ysgrifenedig, iaith safonol, rol y llefarwr, e.e., sut y'i nodir gan Ragenwau/Enwau.**

# *Anfonwch eich defnyddiau!*

**O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT.** ***Dyw hi byth yn rhy gynnar*** **a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella ERBYN YR 8fed O BOB MIS. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.**

**Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:**

**Shân Emlyn — 751469**
**Gwyn Lewis Davies — 756882**
**E. Gunston Jones — 499469**
**T. Raymond Edwards — 563588**

**Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.**

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695), gydag enwau, dyddiad ac amser, etc.

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

# O'R POST

**Annwyl Olygydd,**

**Hoffwn drwy gyfrwng eich colofnau dynnu sylw at gystadlaethau llyfrau Cymraeg Pwyllgor Addysg Gwynedd am 1979/80:**

1. Llyfrau darllen yn cynnwys gwybodaeth fathemategol ddiddorol ar gyfer plant 8-11 oed. Beirniad: Dafydd Morris Jones. Gwobr: £100.
2. Nofel yn seiliedig ar un o'r chwedlau neu ramantau Cymraeg yn null Susan Cooper neu Alan Garner, ar gyfer plant 11-15 oed. Beirniad: Branwen Jarvis. Gwobr £125.
3. Unrhyw lyfr, neu gyfuniad o lyfryn a deunydd dysgu, ar gyfer plant, na ellir eu hanfon i unrhyw un arall o gystadleuthau 1979/80. Rhaid i'r gwaith fod yn gyfryw fel bo modd ei gyhoeddi. Beirniad: W. Carol Hughes. Gwobr: i fyny at £100 yn ôl natur y gwaith.

Dylid anfon y teipysgrifau erbyn Mai 31 1980 at: Y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfa Addysg Gwynedd, Heol y Castell, Caernarfon.

Mae cystadlaethau cyffelyb gan rai siroedd eraill hefyd yn ogystal â chystadleuaeth nofel y Cyd-bwyllgor Addysg. Gellir cael y manylion llawn o anfon at Yr Ysgrifennydd, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 245 Western Avenue, Caerdydd.

Mae yma ddigon o waith i lu mawr o sgrifenwyr — a digon o fylchau i'w llenwi. Hai ati felly!

Yn gywir iawn
Dafydd Orwig
(Cadeirydd Panel Llyfrau Cymraeg Awdurdod Addysg Gwynedd)

**GWESTY LLETY CYMRO**
143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659
**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**
TRWYDDED PRESWYL

# Y CALENDR

**27 Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd: TWMPATH DAWNS. Y Clwb Trydan, Pontcanna 7.00-12.00. Bar. Mynediad 75c. Elw at gronfa'r Ganolfan.**

**29 Cantorion Ardwyn yn Eglwys yr Holl Saint, Ystum Taf, Gogledd Llandaf. 7.30p.m.**

**MAWRTH**

**1 Clwb y Cymoedd: DAFYDD IWAN, Boar's Head, Caerffili. 8.00p.m.**

**2 PRYNHAWN: CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS: Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng Nghapel Gwenfô.**

**2 Oedfa Gŵyl Ddewi Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yn Eglwys Dewi Sant am 2.30p.m.**

**Pregethir gan Y Parchedig O. Tregelles Williams, Casllwchwr.**

**5 Merched Y Wawr yn dathlu Gwyl Ddewi gyda'r Dysgwyr yn Festri Capel Minny St. am 7.30p.m.**

**13 Clwb cinio Merched Caerdydd yn y Wenvoe Hotel, Culverhouse Cross. 7.30p.m.**

**31 Merched y Wawr yn ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol am 7.30p.m.**

**26 EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT: Ffonier Caerdydd 60823.**

**29 Plaid Cymru: FFAIR SBORION Neuadd St. Saviour's, Sblot, 2.00p.m. Eisiau'ch CYMORTH a'ch rhoddion. Ffonier Swyddfa'r Blaid 31944.**

**RHAGHYSBYSIAD**

**FFAIR HAF YSGOL GLANTAF, MEHEFIN 28 1980.**

# *RADIO MORGANNWG*

**Radio Morgannwg yn galw. Radio Morgannwg yn galw am recordiau. Mae yna rai Cymry Cymraeg yn gofalu fod yna dipyn o Gymraeg i'w glywed ar y gwasanaeth radio i'r Cymry Cymraeg sy'n gorfod dod i Ysbyty'r Mynydd Bychan yma yng Nghaerdydd. Record a phwt o sgwrs, neges i gleifion arbennig, rhyw gymysgedd digon hwylus yw'r nod.**

Ond y mae angen cronfa helaeth o recordiau o bob math er mwyn rhoi gwasanaeth i ateb pob math o alwad. Felly dyma ofyn i ddarllenwyr Y Dinesydd feddwl am Radio Morgannwg wrth droi allan y cwpwrdd recordiau y gwanwyn yma. Rhag ofn i neb feddwl mai at wragedd tŷ yn unig y mae'r apel, beth am i chi blant ysgol wneud casgliad o recordiau a'u rhoi i Radio Morgannwg? A rhag ofn i eraill synied taw 'pobol capel' yw nod yr apel, ga i ofyn i'r rhai hynny o'n darllenwyr sy'n cael eu cwmnïaeth mewn mannau eraill i ofyn ym mysg eich gilydd a oes recordiau ar gael at yr achos da o godi calon. Gallwch fynd â'ch recordiau i Ysbyty Mynydd Bychan a gofyn yno am y lle pwrpasol i adael y recordiau, neu fe allwch ffonio Caerdydd 753695, ac fe drefnwn i gasglu eich llwyth. Diolch am wrando.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Mi fydda'i yn tueddu i deimlo'n fflat bob mis Chwefror. Mi wn i yn iawn pam. Wedi'r holl brysurdeb a'r sgrealu sy'n arwain at y Nadolig ac yna hwrli bwrli'r Wyl ei hun mae rhywbeth gwag ac oeraidd i fis Chwefror. Fel mae rhywun yn mynd yn hŷn, tydy cael penblwydd ym mis bach fawr o help i godi calon rhywun chwaith. Mae gen i ffrind sydd hefyd yn dathlu'i phenblwydd yr un wythnos â mi. Rwyf wedi sôn amdani droeon yn y golofn hon, a mae meddwl amdani bob amser yn ysbrydiaeth ac yn fodd i godi calon.

Eleni bydd Modryb Maggie o Drevelin yn gant a dwy. Mae hi'n dal i fyw ar 'i phen 'i hun mewn bwthyn bychan digon di-nôd wrth droed yr Andes. Mae hi'n llwyddo i wneud ei golchi a'i llnau a'i choginio — hyd yn oed i wneud ei bara 'i hun. Yr unig help mae'n ei gael ydy bod cymdogion yn cynnau tân bob dydd iddi ac yn golchi cynfasau; "fedra'i ddim gwasgu rheiny" meddai. Rwyf wedi cael y fraint o fod yn ei chwmni ddwywaith ac mae'r ddwy sgwrs hynod gen i ar dâp a byddaf yn gwrando ac ail fyw'r profiad yn amal.

Ar wahan i'r ffaith ei bod hi'n dalp o hanes y Wladfa mae hi yn ei bywyd wedi gweld mwy na'r un ohonom — canrif a mwy. Roedd hi ymysg y fintai gynta o deuluoedd i groesi'r paith o Drelew i ymgartrefu yn yr Andes. Soniai wrthyf fel y bu iddi hi a'i theulu fentro efo dwy wagen, eu holl eiddo a'u hanifeiliaid ar draws yr hen baith 'na ac i'r daith gymryd tri mis. Ymhen deufis wedi cychwyn rhoddodd ei mam enedigaeth i ferch fach. Dychmygwch ddewrder y fam honno yn cychwyn ar y fath daith o dan y fath amgylchiadau — a hynny o fewn deufis i roi genedigaeth. Teimlaf yn amal mai merched a mamau'r Wladfa oedd y gwir arwyr ac y dylid sgwennu llyfr am eu cyfraniad. Rhoddodd Modryb Maggie hanes y bregeth gynta a gafodd y criw dewr yma yn yr Andes "gan Mr Phillips i chi'n deall, a dyma fo'n pregethu am y gronyn had mwstard — a dyma fi'n meddwl bod o wedi dewis y gronyn hâd mwstard — YR HADYN LLEIA O BOB HADA AM YN BOD NI 'RUN FATH TE — ac y basa'r Andes yn tyfu 'run fath — a mae o wedi." Pedair ar ddeg oed oedd hi bryd hynny.

Bu'n fydwraig answyddogol ddi-ddysg i Gwm Hyfryd am flynyddoedd — gyrru i lefydd anghysbell ar geffyl gefn nos. Ymfalchiai na chollodd yr un fam na'r un plentyn "ond nid y fi'chi, ond y Fo oedd efo fi". Mae ganddi unarddeg o blant ei hun, ac mae wedi colli cownt faint o wyrion a gorwyrion sydd ganddi.

Mae hi'n un o'r ychydig draw 'na sy'n medru Saesneg. Dysgodd Saesneg gan ei thad. Gadawodd o Gymru yn ddyflwydd oed am yr Unol Daleithiau ond oherwydd caledi bywyd yn y pyllau glo yno symudodd i Batagonia, yn uniaith Saesneg erbyn hynny. Buan iawn y bu raid iddo ddysgu Cymraeg. Rhoddodd esiampl imi o'i Saesneg "O yes, I speak English very well......" ac yna â direidi yn ei llygaid gofynnodd, "Ydych chi'n deall 'yn Saesneg i — mae o'n hen iawn cofiwch!"

Fe allwn fynd ymlaen ac ymlaen yn sôn amdani, ei hanesion hynod am gyfnod cyffrous iawn yn hanes Cymry Patagonia, am ei dycnwch a'i dewrder yn wynebu helyntion a phrofedigaethau chwerw. Ond mi gadawai hi'n y fan yna gan obeithio bydd cael cip ar Modryb Maggie yn codi a chynhesu calon pawb o ddarllenwyr y Dinesydd. Penblwydd hapus i Modryb Maggie a diolch am gael ei hadnabod.

SHÂN EMLYN

## 'FEST NOZ' YN CHAPTER

**Bydd blas Llydewig ar CHAPTER nos Sadwrn, Mawrth 15fed pan gynhelir *Fest Noz* draddodiadol yno. Bydd y noson yn cychwyn yng nghegin CHAPTER am 6 pm. pan fydd cyfle i brynu bwyd y diod nodweddiadol o Lydaw megis crempog a seidr. Ymlaen wedyn i'r theatr am gyngerdd pan GWELTAZ, canwr gwerin poblogaidd o Lydaw, a'i fand, a rhwydd hynt i bawb ymuno yn y dawnsio wedyn. Mae'r tocynnau yn £1.15, a'r elw i gyd i DIWAN, Mudiad Ysgolion drwy gyfrwng y Llydaweg. Dewch i fwynhau noson o rialtwch Celtaidd a chefnogi'r Llydaweg ar yr un pryd.**

# Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

**Efallai y bydd yn newydd i'r rhai ohonoch nad ydych yn ymgynnull yn y Clwb Trydan ar ol gêm pnawn Sadwrn ein bod yn cynnal cwis chwaraeon. Y cwis feistr yw Alun Tudor Jenkins (neu Tyds fel y'i hadnabyddir e) ac un o'r cwestiynau y gellid eu gofyn bellach yw "Pwy oedd y chwaraewr cyntaf i sgorio 2000 o bwyntiau dros y Clwb, a phryd y gwnaeth e hyn?" Yr ateb wrth gwrs yw Tyds ei hun ar Ragfyr 1af, 1979, ar ôl 9 mlynedd gyda'r Clwb. Un o fois Brynaman yw Alun, sy wedi capteinio tîm ardal Caerdydd sawl gwaith. Llongyfarchiadau Alun, a phob hwyl â'r 2000 nesaf.**

Llongyfarchiadau hefyd i'n hail reng, John Humphries, sy nid yn unig yn chwarae dros ardal Caerdydd ond sydd wedi cynrychioli Ardaloedd Cymru yn erbyn Gogledd Cymru, Gwent a Morgannwg Ganol. Tra fy mod yn clodfori, rhaid son am ein trydydd tîm arall heb golli y tymor hyn, chwarae gyda llai na 15 dyn. Ar Ragfyr 1af bu dathlu mawr ar ôl iddynt guro'r Bontfaen, oedd heb golli y tymor yma. Ar ben hynny, wythnos yn ddiweddarach, fe enillasant yn erbyn y "Cossacks", tım arall heb golli y tymor hyn, felly llongyfarchiadau i'r capten Gareth Mainwaring a bois "The Thirds".

Gweddol dawel fu hanes chwarae'r clwb ar ddiwedd y flwyddyn... y tywydd heb ganiatau gêmau am ryw 3 wythnos, a'r ymfudiad yn ôl i'r dyffrynnoedd gan nifer o'n chwaraewyr yn golygu mai dim ond un neu ddau dim oedd yn troi allan adeg y Nadolig. Yn anffodus, mae afon Taf wedi dinistrio ein maes hyfforddi — yr "Astroturf" newydd — ac mae hyn wedi ychwanegu at ein problemau o drefnu a dewis timau. Felly apeliwn eto am chwaraewyr a chefnogwyr i'n helpu... cysylltwch â'r Cadeirydd, Dylan Jones (935 5553), neu'r ysgrifennydd, Wyn Williams (732359), os oes diddordeb gennych.


Cafwyd un Sadwrn buddugoliaethus (Ionawr 12) pan enillodd y tri thîm, y tîm 1af yn erbyn y coleg Meddygol a'r ail a'r trydydd yn erbyn Pentyrch. Hefyd, ar fore'r gêm ryngwladol, curwyd tîm 1af... canlyniad da yn erbyn tîm oedd heb golli ers 8 gêm.



**Llun o Garedigrwydd Caradog a Storïau Eraill, Casgliad o storïau swynol llawn dychymyg am gorachod, plant ac anifeiliaid gan yr awdures ifanc, wreiddiol Juli Phillips. Tynnwyd y lluniau deniadol (tua 30 i gyd) gan Bernadette Watts. Cyhoeddwyd y llyfr gan Wasg y Dref Wen am £1.40, yng Nghyfres y Wiwer.**

# CROESAIR Y DINESYDD 1

## gan ap Lewsyn



**AR DRAWS**

1. Mae'r gost yn dra uchel ac yn achosi croes-dynnu. (6)
5. Cydymrech gan iâr ifanc a chydymaith yn defnyddio'i chynffon. (6)
8. Chwarae gwerthfawr heb do. (3)
9. Cyflog am waith uchel heb het. (3)
12. Mae'r gŵr yn derbyn rhan o'i ddoethineb gan arall. (3)
13. Gwella yw'r diben wrth chwilio i linach y teulu. (5)
14. Âi i fath o lawenydd cynhyrfus. (6)
15. "A'i dwyael fel gw—." Mae mynd yn a gân. (3)
16. O'r ddaear yn ddaearol. (5)
17. Bu i glyfrwch ei law dde bara yn rhy hir a throi yn ddoniolwch. (6)
19. Gosod bwyd ar ran o'r "Border Bach"? (4)
20. Dal i wilia am yr un 'en beth o hyd ym Morgannwg. (5)
23. Maen go arbennig ar ffiniau Meirionnydd. (5)
25. Tyllwr. (4)
28. Gwrthrych Goronwy yn "Prin ddau, lle bu gynnau gant." (6)
29. Ni thalwyd y dreth. (5)
31. Cyff y boneddigion. (3)
32. Roedd hi'n chwip-io o rew yn rhan o Nantyffyllon. (6)
33. Â'r dwylo ddoe; â pheiriant heddiw. (5)
34. Morlais? (3)
36. "A'i floneg yn ei flino." (3)
37. "Os dôn nhw, fe —; os na, — nhw ddim." (3)
38. Gweithgarwch cyn agor y popty. (6)
39. Dirwiad sy'n digwydd pan fo enw merch od o dan sylw. (6)

**I LAWR**

2. Mae'n hoffi cael sgwrs. (9)
3. Oherwydd diffyg gweledigaeth, bod yn arweinydd nid all i neb. (7)
4. Cyfran Mati sy'n dod iddi. (3)
5. Mae'n sâff o gael rhan o'r clod. (3)
6. Chwalwyd berfa ar y rhiw ble mae'r tir yn cwnnu. (7)
7. Oni chei dy gyffroi, ni fydd iti hoen. (5)
8. Y gwael yn ennill gradd uwch ac yn colli hanner ei de. Oriog iawn! (6)
10. Mae peth o'r amcanion diweddaraf wedi troi yn adduned. (6)
11. Heb y rhwystrau hyn mae dyn yn ddilyffethair. (6)
18. "Ni ddaw i neb — yn ôl." (3)
21. Dangos y ffordd trwy roi amnaid ymysg y rhai cyntaf o'm cyfoedion. (9)
22. Ergyd palindromig. (3)
23. Rhoi plant (a syniadau) iddo (6)
24. Mae hwn yn medru ei gwneud hi'n bosin. (7)
25. Papur neithiwr yng Nghaerdydd? (3,3)
26. Cyfroldy? (7)
27. Mae'r diawliaid yn rhoi rasal o boptu llo! (6)
30. Ateb cadarnhaol a nifer yn cynhyrchu bwyd. (5)
34. Drachefn (3)
35. Y cyfan sydd gennyf. (3)

**Datrysiad yn y rhifyn nesaf. Tocyn llyfrau (£2) am yr ateb cywir cyntaf erbyn 10 Mawrth. Anfoner at y Gol.**

# *Y MESEIA*

**Bu'r *Meseia* erioed yn un o'r gweithiau hynny sy'n sicr o ddenu cynulleidfa. Eto gwelodd cynulleidfaoedd yng Nghaerffili a Merthyr Tudful fwy na pherfformiad cyffredin o'r campwaith hwn — llanwyd Eglwys Martin Sant ar y nos Wener a Chapel Soar ar y nos Sadwrn gyda gwledd sain dros drichant o leisiau, yn rhieni yn ogystal ag athrawon a thoreth o ddisgyblion Ysgol Rhydfelen.**

Bu'r côr yn ymarfer yn rheolaidd oddiar yr haf, ac yn wir fe adlewyrchwyd ffrwyth y llafur hwn yn safon uchel y perfformiadau. Ond cyfeiriwyd prif sylw'r nosweithiau nid yn unig at y côr a'i sŵn mawreddog ond hefyd at arweinydd y perfformiadau, Mrs Lily Richards.

Mae Mrs Richards wedi ymddeol o Rydfelen gyda throad y Nadolig, a hynny ar ôl deunaw mlynedd o wasanaeth i'r ysgol. Bu'n asgwrn cefn y lle ers ei sefydlu ym 1962, a theilwng yn unig oedd iddi ganu'n iach drwy gynnal perfformiadau o'i hoff waith, sef y *Meseia*. I Mrs Richards, mae'r oratorio yn ymgorffori ei ffydd Gristnogol hi ei hun, ac fe adlewyrchwyd ei llawenydd personol yn y modd yr ymatebodd y côr i'w dymuniadau ar y noson. Roedd y wên fach a'r nod o ddiolch a gafwyd ar ddechrau a diwedd pob cytgan yn llenwi calon pob aelod o'r côr, a chymwys yn unig oedd i hyn oll ddigwydd mewn eglwys yng Nghaerffili, lle mae Mrs Richards yn byw ar hyn o bryd; ac yng Nghapel Soar ym Merthyr sef y capel lle y cafodd ei magu a'i phriodi.

Unawdwyr y perfformiadau oedd Janet Price (Soprano), Angela Rogers Davies (contralto), Kenneth Bowen (tenor, Caerffili), Wynfford Evans (tenor, Merthyr) a Delme Bryn Jones (bariton). Roedd perfformiadau'r rhain yn adlewyrchu safon cyflwyniad y côr, ac yn ôl ymateb rhai o'r unawdwyr ar derfyn y perfformiadau, cawsant eu syfrdanu gan fedrusrwydd y côr yn perfformio'r campwaith. Fel unawdwyr proffesiynol, maent wedi canu'r *Meseia* droeon yn ystod eu gyrfa, ond roedd y perfformiadau o dan Mrs Richards wedi bod yn brofiad mawreddog unigryw.

Estynnir diolch didwyll i bawb a gyfrannodd at lwyddiant ysgubol y ddwy noson. Bu llawer aelod o staff Rhydfelen yn dawel weithgar yn ystod misoedd y paratoi, ac mae diolch mor ddyledus iddynt hwy ag yw i bawb o'r rhieni a chyfeillion yr ysgol a fynychodd y côr ac a sicrhaodd ffarwel mor fythgofiadwy i Mrs Lily Richards. Fe fydd hi yn gadael bwlch na all neb ei lenwi.

## CYMORTH I FENYWOD YNG NGYMRU

**Ar Chwefror 8fed am 8 o'r gloch yn Stafell Fwyta'r Staff, Undeb y Myfyrwyr, Heol y Parc, Caerdydd bu cwmni o artistiaid — Heather Jones, Valmai Jones, Iola Gregory, Catrin Edwards a Robert Blythe — yn rhoi perfformiad o "The Green Desert", gwaith a seiliwyd ar y gyfrol o'r un enw gan Harri Webb. Perfformiwyd y gwaith am dymor haf ym Metws y Coed a chafwyd canmoliaeth fawr i berfformiad caboledig y cwmni proffesiynol hwn.**

**Y tro hwn, cyflwynwyd y perfformiad er elw'r Mudiad Cymorth i Fenywod yng Nghymru. Mae galw parhaus am y gwaith da y mae'r mudiad hwn yn ei wneud drwy Gymru gyfan i ddarparu llochesau i fenywod — a'u plant — sy'n cael eu camdrin gan ddynion p'un ai'r gŵr, neu'r dyn y mae'r fenyw yn cyd-fyw ag ef.**

**Sefydlwyd y mudiad yng Nghymru ym 1977 ac agorwyd Swyddfa Genedlaethol Cymru ym 1978. Erbyn hyn mae 19 grŵp a 7 lloches drwy'r wlad. Mae angen llawer o arian i sicrhau parhad y gwaith pwysig hwn a byddai'r mudiad yn falch i dderbyn eich cymorth ariannol i wneud hynny.**

**Anfoner at Swyddfa Cymorth i Fenywyd yng Nghymru, 2 Coburn Street, Cathays (Tel: 388291.)**

# Barn y to newydd

**'Emrys ap Iwan' gan W.S. Jones — yn Theatr y Sherman**

**Fel rhan o Ŵyl '79 Theatr Cymru y perfformiwyd y ddrama — bortread hon. Portread ydyw o'n "cenedlaetholwr" cyntaf ni, Emrys ap Iwan, a'i frwydr yn erbyn yr "Achosion Saesneg" a'r Dr. Lewis Edwards. Tair golygfa sydd, y gyntaf yng Nghymdeithasfa Dolgellau, 1880, a'r ddwy olaf yng Nghymdeithasfa Llanidloes, 1881. Gwelwyd actio grymus ac effeithiol, yn enwedig gan y ddau "brif" gymeriad, John Ogwen a Stewart Jones. Llwyddodd John Ogwen i bortreadu dyn unig, a oedd yn dioddef am ei fod yn beiddio mynd yn groes i feddylfryd "Prydeinig" y pryd. Arwr trist ydyw, a dyn o egwyddorion moesol cadarn. Ac er ei fod yn gawr o Gymro, llwyddodd John Ogwen i'w bortreadu fel meidrolyn, fel dyn sensitif a diymhongar. Y drasiedi fawr wrth gwrs yw fod breuddwydion Emrys ap Iwan yn dal heb eu gwireddu heddiw, a mae ei ddadleuon, fel y ddrama, yn gyfoes, yn ymwneud â ni heddiw, bron ganrif yn ddiweddarach.**

Er i'r actio argyhoeddi, rhaid cyfaddef mai statig ac undonog ar brydiau oedd y ddrama'i hun. Dim ond yn yr olygfa olaf, pan ddaw Emrys ap Iwan a'r Dr. Lewis Edwards wyneb yn wyneb, y cawn ni'r cyffro a'r gwrthdaro uniongyrchol hwnnw sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant drama. Efallai mai drama i'w darllen yn hytrach na'i gweld yw drama W.S. Jones.

Dyfais effeithiol yn yr olygfa gyntaf oedd dangos y Dr. Lewis Edwards a'i gefnogwyr yn cyflwyno'u dadl o blaid yr "Achosion Saesneg" bob yn ail â dangos Emrys ap Iwan yn myfyrio'n drist am gulni a gwaseidd-dra'i gyd-Gymry. Yr oedd John Ogwen ar falconi uwchben y cyfarfod, a dim ond ar ei wyneb y disgleiriai'r golau. Yn fy marn i, creai hyn naws arbennig, gan ddangos arwahanrwydd ac unigedd Emrys ap Iwan yn gliriach fyth. Yna, aethpwyd yn ôl at gyfarfod y Dr. Lewis Edwards a'i gefnogwyr, ac fe atseiniai dychan a gwawd Emrys ap Iwan drwy eu dadleuon. Dyma enghraifft dda o wrthdrawiad syniadau a chymeriadau. Trwy osod Emrys ap Iwan ochr yn ochr â'r gymdeithasfa hon, gwelwyd dwy ochr y ddadl yn glir. Gwrthgyferbynnai dewrder ac annibyniaeth meddwl Emrys ap Iwan â gwaseidd-dra a chulni'r Dr. Edwards a'i gyd-Fethodistiaid. Rhagrithwyr amlwg yw'r pregethwyr hyn, yn addoli'r "Llo aur, llo Saesneg" yn ôl Emrys. Gwêl mai dim ond dwy blaid o bobl sydd mewn gwirionedd — y Cymraeg a'r Gwrth-Gymraeg.

Nid oedd yr un cymeriad yn traethu gormod, ac nid oedd y sylw'n aros yn ormodol ar yr un o'r ddwy garfan. Gwnâi hyn i'r ddrama gadw rhywfaint o ddiddordeb y gynulleidfa. Ond rhaid i mi bwysleisio eto mai'r piti mawr oedd na ddaeth Emrys ap Iwan a'r Dr. Lewis Edwards wyneb yn wyneb â'i gilydd ynghynt yn y ddrama, achos dyma uchafbwynt a chryfder y ddrama. Ar wahan i ambell dinc o hiwmor, yn arbennig gan Ifan Huw Dafydd fel y Parch. Joseph Thomas, araf a statig oedd y ddrama tan yr olygfa olaf pan wynebodd y ddau "elyn" ei gilydd.

Yn yr olygfa hon, dechreuodd y Dr. Edwards gyhuddo Emrys ap Iwan o fod yn wrthryfelwr a oedd yn caru'r Gymraeg yn fwy na Chymru. Rhaid oedd cydymdeimlo ag Emrys, gan fod pawb yn ei erbyn, ar wahan i Thomas Gee a'r Parch. J. J. Roberts. Yn y diwedd, gofynnir iddo a ydyw'n barod i gydymffurfio â'r gymdeithasfa, i gytuno â'r cyfundeb. Rhaid iddo gytuno er mwyn cael ei ordeinio, ond y mae e'n rhy onest ac yn ormod o Gymro. Nid yw ef fel y gweddill — ni all ragrithio. Ac felly, fe wrthyd dderbyn rheolau'r cyfundeb o achos yr "Achosion Saesneg" yn bennaf. Efallai fod yr olygfa hon yn euog o barhau'r rhy hir, er mor danbaid y dadlau a'r ymosodiadau personol. Y mae hi'n eironig iawn mai dim ond Emrys ap Iwan all gofio geiriau arbennig y cyfundeb — ef yw'r mwyaf galluog a'r mwyaf o Gristion, ac eto, gan nad yw'n barod i blygu'i egwyddorion, ni chaiff fod yn bregethwr.



**Manylion o Y Stori a Gollwyd yn yr Eira gan Ceri Richards. Yng nghyhoeddiad newydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Ceri Richards Graphics, (pris £1.00), a gynhyrchwyd i fynd gyda'r arddangosfa ddiffiniol o weithiau graffig yr artist Cymreig enwog hwn, ceir 4 plat liw, ac 11 darluniad unlliw ynghyd â gwybodaeth a nodiadau esboniadol, rhagymadrodd beirniadol a chofiant byr. Dywedir mai hwn yw'r llawlyfr hanfodol i waith graffig gan artist brint-wneuthurwr o'r radd flaenaf. Un o'r Dyfnant, ger Abertawe, oedd Ceri Richards, a Chymro Cymraeg.**

---

Mwynheais y ddrama ar y cyfan, er iddi symud yn araf. Rhaid canmol pob un actor, a'r set hefyd. Set seml oedd hi, ac ni wastraffwyd amser yn paratoi. John Ogwen, yn fy marn i oedd seren y sioe, a hynny am iddo lwyddo i bortreadu'r dyn yn ogystal â'r cenedlaetholwr eofn. Dangosodd ofnau ac amheuon Emrys ap Iwan a chynheswyd ein calonnau tuag ato. Yr oedd gweddi'r Dr. Edwards at y diwedd yn llawn rhagrith wrth sôn am gyfiawnder gan mai anghyfiawn oedd y ffordd y triniwyd Emrys.

Gorffennodd y ddrama gyda'r arwr yn siarad ar ei ben ei hun o'r pulpud. Roedd ei neges yn gyfoes — rhaid dewis rhwng bod yn Gymro neu'n Sais mewn gwedd Cymro.

Actio cadarn, symlrwydd effeithiol oedd cryfderau'r ddrama, ond 'roedd y diffyg cynnwrf a'r sefyllfaoedd statig yn amharu ar ei llwyddiant fel cyfanwaith. Rhaid pwysleisio eto — efallai mai drama i'w darllen yn hytrach na'i gweld yw'r drama hon.

Angharad Jones, Dosbarth 6
Ysgol Gyfun Rhydfelen .

# Trefor Llywelyn Hughes

Yn Eglwys Dewi Sant, ddydd Iau, y trydydd o Ionawr, cafwyd gwasanaeth angladdol Trefor Llywelyn Hughes, Hollybush Court, Cyncoed, Caerdydd, gyda'r ficer, Y Parchedig Leslie Evans, yn arwain y gwasanaeth. Bu farw ddydd y Nadolig ar ôl gwaeledd blin.

Ym Mhorthygest, Gwynedd, yr oedd gwreiddiau Trefor Hughes, ond Cymru gyfan oedd ei diriogaeth. Roedd ganddo ddau gariad mawr, ar wahân i'w waith a'i deulu, sef Yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eglwys Dewi Sant.

Yr yr eglwys, ef oedd arweinydd y gân, a bu'n warden y ficer am flynyddoedd, gan wneud ei waith bob amser gyda graen a gofal, Ef, hefyd, am flynyddoedd, a fu'n arwain yr Wyl Gorawl Gymraeg yn Eglwys Gadeiriol Llandaf bob Mai. Roedd ei drylwyredd ynglŷn â'r gwaith hwn yn drawiadol.

Bydd y bobl hynny a fu'n ymhel ag Eisteddfod Caerdydd yn gwybod am y gwaith mawr a wnaeth ynglŷn â hi. Roedd yn un o is-gadeiryddion y pwyllgor gwaith, ac yn gadeirydd pwyllgor yr orsedd. Bu ei lafur drosti yn ddiflino, ond nid oedd hon iddo ond un eisteddfod o blith llawer. Am flynyddoedd lawer, ef oedd Cyfarwyddwr Technegol Llys yr Eisteddfod, a gallai ganu o waelod calon, wrth edrych ar y pafiliwn, sy wedi tyfu'n gymaint o boen i lawer erbyn hyn, "Myfi sy'n magu'r babi." Ei brif waith oedd sicrhau bod y pafiliwn ar ei draed ac yn ddiddos. Ond ef hefyd a ofalai fod yr holl weithgareddau llwyfan a'r seremoniau yn mynd yn eu blaenau yn llyfn a didramgwydd. Fel arwydd o'i diolch iddo, gwnaeth yr Eisteddfod Genedlaethol ef yn un o'i Chymrodyr — yr anrhydedd uchaf posibl. Yn anffodus, oherwydd gwaeledd, methodd fynd i Gaernarfon llynedd i dderbyn yr anrhydedd.

Roedd y gynulleidfa fawr a ddaeth i'w angladd yn dyst o edmygedd ei ffrindiau ohono. Darllenwyd llith gan Y Parchedig O.G. Rees a gweddïwyd gan Y Parchedigion Cledan Mears a Gareth Jones. Talwyd teyrnged iddo gan Yr Archddiacon George Noakes a chan Mr Emyr Currie Jones, ar ran yr Eisteddfod Genedlaethol.



***Clara Novello Davies (1861-1943)***


***Athrawes canu amlwg ac arweinyddes y Côr Cymreig a enillodd lawer gwobr gyd-genedlaethol, fe'i hadnabyddir yn bennaf, efallai, fel mam Ivor Novello, a aned yn Heol y Bontfaen, Caerdydd.***


## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)




# Ffenestr-siop
# Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

# CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388655
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS

*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd

(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)



***Uwchadran yr Urdd ym Mharc Craig-y Nos yn ystod penwythnos yng Nghanolfan yr Urdd — GLYNTAWE.***

## EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG NEWYDD

Ar y Sul cyntaf o Ragfyr ffurfiwyd Eglwys Efengylaidd Gymraeg newydd yn y ddinas. Cwmni bychan o ddeuddeg a gorfforwyd yn eglwys, gyda'r bwriad o gyd-addoli a diogelu'r hyn sy'n nodweddiadol o'n traddodiad efengylaidd a hynny yn ein hiaith ein hunain.

Yn y cyfarfod, darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan Alun Gibbard. Pwysleisiau'r darn cyntaf, Mathew 16: 13-28, le cyffes bersonol yn yr eglwys; a'r ail, Salm 131, hyfrydwch y gymdeithas ysbrydol. Darllenwyd y cyfamod eglwysig ac arweiniodd y Dr. Phil Ellis mewn gweddi, i'n cyflwyno i Dduw a deisyf Ei arweiniad i'r dyfodol. Cyhoeddwyd y Gair gan y Parch. Noel Gibbard, yn seiliedig ar 1 Cor. 12:12 gan gyfeirio at rai o nodweddion yr Eglwys Gristnogol. Parhawyd y gymdeithas o gwmpas Bwrdd yr Arglwydd gyda chymorth Wyn James a Selwyn Williams.

Eisioes ymunodd rhai â ni yn y gwasanaethau, ac estynnwn groeso cynnes i bawb i addoli gyda ni. Bydd cwpanaid o de ar ôl oedfa'r hwyr. Cynhelir oedfaon bob Sul am 10.30 a 6.30. Cawsom ganiatâd caredig i gyfarfod yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon. Mae cwrdd wythnos hefyd nos Iau am 7.30 yng nghartref un o'r aelodau. (Os am wybodaeth bellach ffoniwch Caerdydd 756581.)

## *CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD*

'Roedd hi'n noson ddigon oer a rhewllyd pan gyfarfu'r Clwb ym Mis Bach, ond fe gawd cynhesrwydd llythrennol a chwmnïol yn y Wenvoe Hotel. Ein gwraig wâdd oedd Iris Cobb o Helo Bobol, ac fe gawsom ganddi nifer o syniadau bach effeithiol ar ysgafnhau y gwaith o baratoi bwyd. Os ydych wedi sylwi bod golwg well ar rai o wrywod ein haelodau ni a bod rhai o'r merched ei hunain yn cerdded yn ysgafnach, yna gellwch weld mor effeithiol fu Iris.

I unrhyw ferch, ta beth yw ei gwaith, ta faint yw ei hoed, mae cael sgwrs a phryd (ac ati) yn rhoi hwb i'r galon. Felly croesawn unrhyw ferch o blith darllenwyr Y Dinesydd, neu unrhyw un arall o ran hynny, i ymuno â ni ar yr ail Nos Iau o Fis Mawrth (Mawrth 13 1980) yn y Wenvoe Hotel, ger Culverhouse Cross. Rhowch alwad ar y ffôn i'r Ysgrifennydd, Mrs Glenys Evans, Caerdydd 756963.

# O'R POST

**At y Golygydd,**

**Yr yr erthygl *Y Consensws Arall*, a ymddangosodd yn *Y Faner* Hydref 26 1979 maentumiwyd dau beth, o leiaf:**

**(i) Na ellir bod yn sicr inni gael consensws dros Bedwaredd Sianel Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.**

**(ii) Bod *"ugeiniau lawer o ddarlledwyr"* yn cytuno â Gareth Price pan fynnai ef, rai misoedd yn ôl bellach, gefnogi yn fras *"yr hyn a arfaethir yn awr gan y llywodraeth, sef cadw'r* status quo *a thrwy hynny yr elfen gystadleuol bresennol."***

Carwn wneud ychydig sylwadau ar yr honiadau hyn.

(i) Awgrym y Gohebydd cyfrin yw nad cefnogaeth gyffredinol gref a gafwyd dros Bedwaredd Sianel Gymraeg, mewn gwironedd, ond "cefnogaeth leiafrifol pwyllgorwyr brwd a glywyd yn siarad ar eu cyfer."

Yrŵan, bu'r ddadl ynglŷn â'r Bedwaredd Sianel yn un a ddatblygwyd dros gyfnod hir o flynyddoedd ac fe'i llywiwyd yn hollol agored mewn cynadleddau, ar y cyfryngau darlledu, yng ngholofnau'r wasg, trwy gyfrwng pamffledi, mewn cynghorau a phwyllgorau o arbenigwyr. Buwyd yn ei thrafod ym mhob congl o'n bywyd cymdeithasol a gwleidyddol, mewn eglwys a choleg, swyddfa a ffatri, marchnad a thafarn. Prin, yn wir, bod un mater yn hanes Cymru gyfoes a drafodwyd yn llawnach a manylach na'r mater arbennig hwn ac, ymhen amser, cafwyd galwad a fu'n ddigon effeithiol i sicrhau ymateb ffafriol gan Lywodraeth Lafur, ac ymrwymiad i weithredu'n gadarnhaol — ar un adeg — gan Blaid Doriaidd. Onid oedd hyn oll yn fater o gonsensws gwirioneddol ni allaf ddyfalu *beth a allai* fod ystyr y gair. Mae gofyn inni dderbyn mai gwaith lleiafrif o bwyllgorwyr oedd hyn yn athrod ar ein deallusrwydd.

(ii) Yr hyn a ddywedwyd gan Gareth Price ar y rhaglen radio y cyfeirir ati oedd ei fod yn cefnogi safbwynt y diweddar Jac L. Williams. Nid yw hynny'n gyfystyr o gwbl â dweud ei fod *yn awr* yn cefnogi yr hyn a arfaethir gan y llywodraeth bresennol. Hanfod safbwynt J.L. Williams oedd y dylid cael rhaglenni Cymraeg ar *bob sianel*. Y mae'r Toriaid, a HTV, am eu rhannu rhwng *dwy* sianel yn unig. Ond, wrth gwrs, er mwyn gwybod yn union beth yw barn Gareth Price heddiw, y peth gorau i'w wneud, a'r hyn a ddylid fod wedi ei wneud er mwyn tegwch â Mr Price ei hun, a fyddai gofyn iddo yn uniongyrchol a yw'n cefnogi cynllun y llywodraeth hon ai peidio. Wedi'r cyfan, y mae'n rhan o dim llywodraethol Corfforaeth sydd wedi cefnogi'r Bedwaredd Sianel Gymraeg yn swyddogol dros rai blynyddoedd ac wedi mynegi siom o glywed am fwriad presennol y llywodraeth.

Sut bynnag, arbenigrwydd honiad y Gohebydd cyfrin yw *"bod ugeiniau lawer o ddarlledwyr"* yn cytuno â'r llywodraeth. Beth, yn union, yw natur ei dystiolaeth? Mae ei iaith yn hynod o benagored. Mynn bod *"lle i gredu hyn"*. Gan, *bwy?* Sawl *"ugain"* sydd o'r darlledwyr hyn? Gellid rhestru yn bendant, pe bae galw am hynny, y cymdeithasau, y pleidiau gwleidyddol, y sefydliadau cenedlaethol, ac ati, sydd wedi cefnogi'r alwad am Bedwaredd Sianel Gymraeg. Eithr yma, yn achos y darlledwyr, rhaid bodloni ar dderbyn gair un dyn, anadnabyddus i bawb ond i olygydd *Y Faner*, bod llu o ddarlledwyr yn cefnogi cynllun arfaethedig y llywodraeth. Beth a allai fod gwerth haeriad o'r fath mewn dadl agored?

Y mae un peth yn amlwg ddigon, 'dybiwn i, sef mai haerllugrwydd yw disgrifio sefyllfa mor niwlog â hon — a dyfynnaf bennawd yr erthygl — fel *Y Consensws Arall*. Rhaid gosod peth ffrwyn ar war iaith penawdau, hyd yn oed.

Gyda llaw, nid yw'n wir y *"Golyga amodau gwaith a thelerau cytundebau"* darlledwyr, nad ydynt yn rhydd i *"ddweud gair"* ar fater y Bedwaredd Sianel. *Pe byddai'n* wir byddai'n gyhuddiad difrifol i'w ddwyn gerbron yr Awdurdodau Darlledu. Ar hyd y blynyddoedd diwethaf y mae wedi bod yn agored i ddarlledwyr — o safbwynt natur eu cytundeb gwaith — i wrthwynebu Pedwaredd Sianel Gymraeg yn gyhoeddus pe teimlent yn ddigon cryf ar y mater. Bûm i'n gwneud hynny, o blaid y Sianel, pan oeddwn yn gyflogedig gan y Gorfforaeth, ac er nad oedd hynny'n plesio pawb, bid siwr, ni ddygwyd yr hawl i lefaru a gweithredu'n gyhoeddus oddi arnaf. O drugaredd, ni fedd Awdurdodau Darlledu, mwy na'r un awdurdod daearol arall, yr hawl i brynu dyn gorff ac enaid.

*Meredydd Evans*



# CANTORION CREIGIAU, Rhagfyr, 1979

**Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, dathlodd Cantorion Creigiau eu degfed penblwydd. Ffurfiwyd y côr yn ystod mis Rhagfyr 1969 gan aelodau o Glwb 23 Creigiau, clwb cinio i ddynion a grewyd er mwyn gwella'r ddealltwriaeth rhwng brodorion y pentref a'r newydd — ddyfodiaid niferus. Yr amcan ar y dechrau oedd ffurfio parti bychan i fynd o gwmpas i ganu carolau er mwyn casglu arian tuag at Gartref Maeth Pentyrch, yn arbennig er mwyn prynu anrhegion Nadolig i'r plant a fyddai'n aros yno dros y Nadolig. Parhaodd y traddodiad yma'n ddi-dor, a chodwyd erbyn hyn tua £1,000 yn y dull hwn tuag at yr elusen yma.**

Yn fuan wedi'r Nadolig hwnnw, penderfynwyd cyfarfod i ymarfer fel côr ac ym mis Rhagfyr 1970 cynhaliwyd y cyngerdd cyntaf yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau. Aeth elw'r cyngerdd hwn tuag at ysbyty Rhydlafar. Tyfodd aelodaeth y côr o tua 25 yn y cyngerdd cyntaf hwn i dros 60 erbyn hyn.

Yn y Clwb Golff yn y Creigiau y cynhaliwyd yr ymarferion gan fwyaf, a bu'r côr yn ffodus iawn i gael man cyfarfod mor gysurus a chyfleus dros y blynyddoedd.

Ym mis Medi 1973 ymwahanodd y côr oddiwrth y clwb cinio a phenderfynwyd ar yr enw 'Cantorion Creigiau', ac yn 1975 cofrestrwyd y côr yn swyddogol fel elusen.

Ar hyd y blynyddoedd cynhaliwyd cyngherddau amrywiol at wahanol elusennau mewn nifer fawr o leoedd ar hyd ac ar leol De-ddwyrain Cymru. Yn flynyddol, cynhelir cyngerdd Nadolig yn y Creigiau, ac ar lawer ystyr, dyma uchafbwynt blwyddyn y côr. Edrychir ymlaen yn frwd at y parti Nadolig sy'n dilyn y cyngerdd — onid oes llawn cymaint o baratoi ar gyfer ambell eitem yng nghabaret y parti ag sydd ar gyfer eitemau'r cyngerdd ei hun?

Nid y Creigiau a'r Dde-ddwyrain fu'r unig ardal i fanteisio ar dalentau Cantorion Creigiau! Cynhaliwyd cyngherddau hefyd yng Nghanolbarth Cymru, Gorllewin Lloegr ac yn Llundain. Un o uchafbwyntiau gyrfa'r côr oedd dod yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn y gystadleuaeth i gorau pentref neu eglwys. Gobeithir cystadlu unwaith eto eleni, yn Nyffryn Lliw.

Er hyn, prif weithgaredd y côr o hyd yw cynnal cyngherddau i godi arian at achosion da. Yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf, amcangyfrifir fod y côr wedi casglu dros £10,000 tuag at achosion megis Tenovus, Urdd Gobaith Cymru, yr N.S.P.C.C., Ysgolion Meithrin, Cymdeithasau Henoed a llu o rai eraill.

Amrywiol yw natur rhaglenni'r cyngherddau hyn, yn cynnwys darnau corawl clasurol, cerddoriaeth ysgafn, canu cysegredig, canu gwerin, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal, dibynnir ar unawdwyr oddi mewn i'r côr am eitemau unigol, a cheir pwyslais hefyd ar eitemau ysgafn. Disgyn baich trefnu'r cyngerddau hyn ar ysgwyddau'r cynhyrchydd.

Mae'r côr yn pwyso'n drwm wrth gwrs ar ei arweinyddes ddawnus, Mair Roberts, nid yn unig fel arweinyddes, ond fel unawdydd yn y cyngherddau hefyd. Soprano broffesiynol yw Mair a gafodd ei hyfforddi yn y Guildhall School of Music a'r Italia Conti Stage School, a hi fu arweinyddes y côr o'r dechrau.

Bu'r côr yr un mor ffodus yn ei gyfeilyddes, Jane Gordon, a gafodd ei hyfforddi yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd.

**Y DYFODOL**

Deil yr hen draddodiad o ganu carolau o gwmpas y pentref ar gefn lori neu dractor a threiler yn boblogaidd iawn. Rhaid cyfaddef i awgrym gael ei wneud yn un o gyfarfodydd cynnar pwyllgor y côr y dylid cael atseinydd i atgyfnerthu'r canu gyda recordydd tâp o rai o'r carolau er mwyn rhoi ysbaid i'r cantorion o bryd i'w gilydd! Da dweud na fu hyn yn angenrheidiol hyd yn hyn. Y broblem fwyaf nawr yw cael treiler sy'n ddigon mawr i ddal yr aelodau i gyd.

Mae gan y côr raglen brysur o'i flaen y gaeaf hwn eto, gyda chyngherddau yn Eglwys Groesfaen tuag at yr N.S.P.C.C. yn ysbyty Rhydlafar, yn Eglwys St. Michael's, Beddau, ym Mhenarth tuag at y R.A.F.A., ac yng nghlwbiau Golff Radyr a Llanisien ac hefyd yr ydym yn cyflwyno sawl perfformiad o 'Olivet to Calvary' tuag adeg y Pasg, o gwmpas Caerdydd.

Os oes gan eich cymdeithas chi ddiddordeb mewn cyngerdd, cysylltwch â'r Ysgrifenyddes, 12 Claverton Close, Gwaun Miskin, Beddau. Ffôn: Newtown Llantwit 203430.

Daeth deng mlynedd llwyddiannus a difyr i ben, ac mae'r côr yn edrych ymlaen at sawl degawd arall, yr un mor brysur a llwyddiannus, gobeithio.

## 'MEITHRIN'

**Mae 'Meithrin', sef Bwletin chwarterol Mudiad Ysgolion Meithrin wedi ymddangos eto. Mae copiau i'w cael dim ond i chi gysylltu â Swyddfa'r Mudiad yn 89 Heol Llanishen Fach, Rhiwbeina. Ffôn Caerdydd 612690.**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Lower Cathedral Rd, Caerdydd.*